

# Croeso i Cylch Morfa Nefyn

---

Nod y Cylch Meithrin yw darparu gofal ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg gan roi mwy o gymorth i'r plant di-Gymraeg. Darperir cyfleoedd i blant ddatblygu i'w llawn botensial tra yn y Cylch trwy gynnig cwriciwlwm a strategaethau dysgu ac addysg y Cyfnod sylfaen - Iaith, llythrenedd a chyfarthrebu, Datblygiad mathemategol, Datblygiad corfforol, Datblygiad - Personol a Chymdeithasol, Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r byd a Aml - ddiwyll, sef dysgu drwy chwarae. Bydd cyfle i bob plentyn o dan oedran Ysgol fanteisio ar brofiadau cyn-ysgolw drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn rhoi profiadau sy'n galluogi plant i fod yn greadigol, defnyddio'u dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu. Bydd y plant yn cael ei monitro ar eu datblygiad yn gyson, byddwn hefyd yn monitro yn gyson, y gwasanaeth ar gael i chwi, sydd yn ein galluogi i fesur llwyddiant ein gwasanaeth i asesu anghenion eich plant. Mae y Cylch yn cydweithio yn agos a ysgol Morfa Nefyn, mae assesiaid plant yn cael ei trosglwyddo ar diwedd eu cyfnod yn y Cylch i'r ysgol. Mae ESTYN yn archwilio'r Cylch ac mae'r adroddiad ar gael iw weld yn y cyntedd.

Mae themau gwahanol i bob tymor gyda gweithgareddau gwahanol yn cael eu cwblhau ar gyfer y themau i gyd-fynd a'r saith maes dysgu sydd yn y Cyfnod Sylfaen. Yn ystod y bore bydd y plant yn cael cyfle i chwarae efo gwahanol degannau, e.e. beiciau, blociau, ceir bach, cegin, siop, doliau, jigsaws i enwi ond ychydig. Byddent hefyd yn cael cyfle i wrano ar stori, canu gyda cherddoriaeth, ymarfer corff, lliwio, gludo, paentio a thorri a.y.y.b. Mae'r ardaloedd canlynol ar gael: darganfod, llyfrau, graffeg, chwarae rôl, adeiladu, cornel cartref, tywod, byd bach, hydrin, mathemateg, creadigol, TGCh, dŵr a cherddoriaeth, sydd i gyd yn cydymffurfio a'r Cyfnod Sylfaen.

Croesawir pob plentyn i'r cylch waeth be fo'i liw, hil, dosbarth cymdeithasol, sefyllfa deuluol neu anghenion addysgol. Yr ydym yn gobeithio y bydd eich plentyn yn hapus yn y Cylch ac yn elwa o'r ddarpariaeth.

Cynhelir y Cylch yn neuadd y Ganolfan pentref Morfa Nefyn. Ni all unrhyw un o'r cyhoedd agor drws o'r ochr allan ac nid yw'r Ganolfan yn cael ei ddefnyddio gan unrhyw un arall yn ystod oriau'r Cylch Meithrin heb ganiatad yr arweinydd ar pwyllgor. Mae'r plant yn cael ei cloi i fewn yn y neuadd yn ystod y bore ac yn cael eu hebrwng i'r toiled gan aelod o staff os ydynt angen mynd yno. Mae'r byrbryd yn cael ei baratoi yn y gegin e.e. plicio afal neu fanana. Mae ystafell ychwanegol ar gael os bydd rhiant angen sgwrs breifat a'r arweinydd an unrhyw fater. Mae'r neuadd ar Cylch yn cael ei archwyllo yn gyson gan AGGCC ac mae'r adroddiad ar gael iw weld yn y cyntedd. Mae pwyllgor y Ganolfan yn sicrhau fod yr adeilad yn cael ei lanhau yn rheolaidd gan y gofalwr. Mae holl adnoddau a ffeiliau y cylch yn cael ei cadw mewn cwpwrdd o dan glo.

Mae'r arweinydd yn gyfrifol am wneud asesiad risg sydyn pob diwrnod i sicrhau diogelwch y plant ac mae'n cadw cofnod mewn ffeil. Un waith bob tymor mae'r arweinydd yn gwneud asesiad trylwyr o'r adnoddau er mwyn sicrhau diogelwch.

Mae'r Cylch yn derbyn plant rhwng 2 1/2 a 4 oed, pedair sesiwn bore sef dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau rhwng 9.00 a 11.30 yn ystod tymor Ysgol. Cost y sesiwn fydd £5.00, mi fydd bil yn cael ei rhoi ar cychwyn y mis ac iw dalu mewn 2 wythnos. Y nifer mwyaf o blant all y Cylch ei dderbyn ar un tro yw 20. Cymharedd oedolion i blant yw 1:4 (dwy oed i dair), 1:8 (tair oed +). Oherwydd rheolau Yswiriant mae rhaid rhwystro pawb rhag dod i mewn cyn 9:00 I alluogi'r staff i gludo offer. Gofynir i'r

rhiant ddisgwyl am eu plant y tu allan i ddrysau'r cylch (tywydd yn caniatáu). Bydd pob plentyn yn cael eu hebrwng i law rhiant . Mae'n hanfodol eich bod yn rhoi gwybod i'r Arweinydd yn bersonol os bydd unrhyw berson arall yn cyrchu eich plentyn o'r Cylch.

Mewn achos o argyfwng gyda plentyn byddwn yn cysylltu a'r person a enwir ar y ffurflen cofrestru plentyn (P1 )sydd yn cael ei chadw mewn ffeil yn y Cylch. Mewn achos o dan mae canllawiau pendant i'w dilyn. Bydd y staff yn cymeryd pob gofal o'r plant mewn sefyllfa o'r fath.

Mae o leiaf dwy aelod o staff ym mhob sesiwn o'r Cylch, Arweinydd a Chymorthwydd (hyn yn codi i dair pan fo cynnudd yn nifer y plant). Os bydd angen mae gan y Cylch staff wrth gefn. Os oes achos lle mae dwy aelod o staff yn gorfod mynd gwrs yna bydd rhaid i'r Cylch gau amy diwrnod hwnnw. Byddwn yn eich hysbysu o hyn drwy lythur.

Mae'r Cylch yn derbyn plant ag anghenion arbennig ac mewn cysylltiad ag Cyfunwr Cynllun Cyfeirio Gwynedd. Am fwy o wybodaeth ynglun a'r cynllun hwn a threfniadau y Cylch cysyllter a'r Arweinydd.

Mae'r Cylch yn sicrhau bod y plant yn dysgu am ddiogelwch, iechyd a hylendid personol fel rhan o'r cwricwlwm. Fe dderbynnir mai polisi cyffredinol yw disgwyl i blant fod weddol ddibynadwy o sych heb glytiau cyn mynychu'r grwp. Fodd bynnag, drwy dderbyn plant 2 1/2 oed i'r Cylch cytunwyd i derbyn y plant, ond bydd angen i'r rhieni fod ar galw i ddod mewn i newid ei plant a fynd a clytiau adref i'w gwaredu.

Os bydd eich plentyn yn dioddef o anhwylder, yn chwydu neu'n dioddef o ddolur rhydd, bydd gofyn i chwi ei cadw o'r cylch am o leiaf 48 awr ar ol i'r symptomau ddiplannu (gweler y cytundeb CM/RH am ragor o fanylion ynglun a salwch). Os bydd eich plentyn yn mynd yn sal yn ystod y Cylch byddwn yn eich hysbysu neu y person sydd wedi ei nodi ar y ffurflen gofrestru -P1 (sydd ar ffeil yn y Cylch).

Wrth ymuno a'r Cylch Meithrin mae'r rhieni/gwarchodwyr yn cael eu ysbysu o "Lyfr Polisiau" y Cylch. Mae'r polisiau yma yn cael eu harwyddo ar ddechrau pob blwyddyn gan Gadeirydd y pwyllgor / Person Cofrestredig i gadarnhau fod y Cylch yn mabwysiadu'r holl bolisiau. Mae'r llyfr polisiau ar gael i'w darllen ar yr hysbysfwrdd yn y Ganolfan os bydd rhywun eisiau cyfeirio ato yn dilyn hyn.

## **POISIAU AC EGWYDDORION**

**Derbyn** - Mae'r Cylch meithrin yn cynnig addysg Feithrin i blant dwy a hanner oed hyd at bedair oed trwy gyfrwng y Gymraeg. Caniateir hyd at ugain o blant ymhob sesiwn.

**Polisi Iaith** - Nod y Cylch yw cynnig i bob plentyn cyn-ysgol yn ei ddalgylch, y cyfle i gael profiadau cyn-ysgol trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Bydd y Cylch yn sicrhau bod ei holl weithgareddau o fewn y ddarpariaeth yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hefyd yn sicrhau na fydd unrhyw riant yn cael ei adael allan o unrhyw weithgaredd ar sail eu cefndir ieithyddol.

**Cyfle Cyfartal** - ein bwriad fel Cylch yw sicrhau fod pob unigolyn yn cael yr un parch a chyfle. Ni fyddwn yn gwahardd plentyn beth bynnag ei genedl, rhyw, hil, lliw, crefydd, oed, anabledd, statws prodasol, diwylliant neu ddsbarth cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys mynediad i weithgareddau, triniaeth gyfartal a pharch tuag at bob unigolyn.

**Anghenion Arbennig** - Ein nod yw rhoi cyfle i bob plenty fanteisio ar addysg feithrin Gymraeg. 'Rydym yn gweithio gyda'r Cynllun Cyfeirio lleol ac asiantaethau eraill i roi cymorth a chefnogaeth i'r plentyn a'i deulu.

**Rheoli Ymddygiad** - Ei nod yw darparu amgylchedd sy'n eiliedig ar ganllawiau clir, teg a chon sy'n hyrwyddo dealltwriaet plentyn o ymddygiad derbynol . Mae staff y Cylch yn gwithredu dulliau cadarnhaol o reoli ymddygiad. Credwn fod cosbi plant yn gorfforol yn anerbyniol.

**Bwlio** - Ni fydd unrhyw fath o fwlio yn dderbynol o fen y Cylch. Bydd ystaff yn cymeyd achosion o'r fath o ddifrif ac annog plant i siarad. Bydd unrhyw ymddygiad sy'n achosi gofid yn cal ei drafod gyda'r rhiant.

**Amddifyn Plant** - Nod y Cylch yw amddifyn pob plentyn dan ein gofal. 'Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod hawliau'r plentyn yn flaenoriaeth, a bod y plant yn cael eu hamddifyn. 'Rydym yn cefnogi egwyddorion dogfen Hawliau plentyn y Cenhedloedd Unedig a Deddf plant 1989. Cred y Cylch fod hapusrwydd, diogelwch a ffyniant pob plentyn yn bwysig.

**Iechyd a Diogelwch** - Bydd y Cylch yn gwneud popeth a all, cyn belled a bo hynny'n rhesymol ymarferol, i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y plant o dan eu gofal, y staff, myfyrwyr ar brofiad gwait ac ymwelwyr. Bydd pob plentyn yn cael ei yswirio rhag damweiniau dan gynllun yswiriant Mudiad Ysgolion Meithrin.

**Trefn Canmol a Chwyno** - Ein nod yw darparu gwasanaeth o'r safon uchaf ym mob agwedd o'n gwaith . Croesawn eich sylwadau fel y gallwn gynnig y gwasanaeth gorau posibl. Os oes gennych unrhyw gwyn, dylid ei fenegi at yr Arweinydd / Cadeirydd y pwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw gwyn pellach at :

AGGC,

Llywodraeth cynulliad Cymru,

Sarn Mynach,

Cyffordd Llandudno,

Conwy,

LL31 9RZ

Rhif Ffon :-03007900126

#### **Staff:-**

Arweinydd y Cylch (dros dro) Emma Haque

Cymorthw-ydd (dros dro) Eira Williams

Myfyrwraig Cam wrth Gam: Bethan Efydd Davies

Wrth Gefn Bethan Williams, Enlli Morgan a Natalie Burgess.

#### **Pwyllgor:-**

Cadeirydd Enlli Morgan

Ysgrifenydd Elen Jones

Trysorydd Bethan Davies

Person Cofrestredig Sian Hughes

Bydd croeso i chwi ddod i drafod eich plentyn gyda'r Arweinydd ar diwedd unrhyw sesiwn a gobeithio y bydd eich plentyn yn hapus iawn yn ystod ei gyfnod yng Nghylch Morfa Nefyn.

Rhif ffon Cysylltu Emma Haque 07340 578423